Estyn

# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Uwchradd Castell Alun

Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Castell Alun yn gymuned groesawgar a chynhwysol sy'n darparu cyfleoedd gwerthfawr i'w disgyblion ddatblygu i fod yn unigolion parchus a chydwybodol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn eithriadol o dda, maent yn dangos agweddau hynod gadarnhaol tuag at ddysgu, ac mae ganddynt berthnasoedd gwaith adeiladol â staff. Mae llawer o ddisgyblion yn gweithio'n ddiwyd mewn gwersi ac yn dangos lefelau uchel o falchder yn eu gwaith.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu dysgu, tra bod lleiafrif ohonynt yn gwneud cynnydd cryf. Yn y rhan fwyaf o wersi, mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio'n dda ar gyfer dysgu. Yn y gwersi gorau, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel, maent yn holi disgyblion yn fedrus i'w hannog i feddwl yn ddwys ac ysbrydoli cariad am y pwnc. Mewn ychydig o wersi, nid yw disgyblion yn gwneud cynnydd addas. Yn y gwersi hyn, nid yw athrawon yn holi disgyblion yn ddigon da neu nid ydynt yn ystyried yn ddigon manwl sut i gefnogi disgyblion ar draws yr ystod gallu.

Mae disgyblion yn elwa ar gyfleoedd gwerthfawr i ddefnyddio a datblygu eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol ar draws y cwricwlwm. Fodd bynnag, mae cydlyniant a chysondeb y cynllunio i helpu disgyblion i ddatblygu'r medrau hyn yn gynyddol yn faes i'w ddatblygu ymhellach.

Mae'r cwricwlwm yn eang, yn ddifyr ac yn diwallu anghenion disgyblion. Mae'n cynnwys darpariaeth werthfawr i gynorthwyo disgyblion i ddatblygu eu dealltwriaeth o iechyd a lles ac yn helpu disgyblion i ddatblygu eu medrau Cymraeg yn dda. Mae cyfleoedd allgyrsiol yn amrywiol a chynhwysol, ac mae cyfleoedd i arwain fel y llysgenhadon lles a'r "Cyngor Cymraeg" yn helpu disgyblion i ddylanwadu ar fywyd yr ysgol.

Mae'r ysgol yn rhoi pwyslais mawr ar les a datblygiad personol disgyblion. Ceir mesurau gwrthfwlio effeithiol, a chymorth rhagorol ar gyfer anghenion emosiynol, cymdeithasol ac academaidd disgyblion. Gwerthfawrogir barn disgyblion, ac maent yn elwa ar gyfleoedd helaeth i chwarae rôl weithredol mewn ffurfio cyfeiriad yr ysgol. Caiff y cyfnod pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd ei reoli'n ofalus, gan sicrhau bod disgyblion yn teimlo'n hyderus a'u bod yn cael cefnogaeth o'r cychwyn.

Mae arweinwyr wedi sicrhau gwelliannau pwysig i waith yr ysgol. Er enghraifft, bu gwelliant da mewn cyfraddau presenoldeb y llynedd, gan gynnwys cyfraddau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae trefniadau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn gadarn a chydweithredol, gan arwain at ddealltwriaeth ar y cyd o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Yn ychwanegol, mae llywodraethwyr yn darparu her fuddiol yn eu rôl fel ffrindiau beirniadol i'r ysgol.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud dau argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

A1 Gwella cysondeb yr addysgu trwy rannu'r arfer orau sy'n bodoli yn yr ysgol

A2 Cryfhau'r cysondeb a'r cydlyniant o ran sut caiff medrau disgyblion eu datblygu'n gynyddol ar draws pynciau

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 30/05/2025